


Amgueddfa Cymru: Ysbrydoli Cymru



cynnwys

eich amgueddfeydd cenedlaethol chi	3
cyflwyniad: creu amgueddfeydd byw	5
bywyd i’n gorffennol	7
deall y dirwedd	9
mwyr nag adeiladau	11
ymgysylltu	13
dathlu dysgu	15
uchafbwyntiau	19
cefnogwyr a rhoddwyr	23

Cyhoeddwyd yn 2010 gan
Amgueddfa Cymru
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP, Cymru.

© Amgueddfa Cymru
Geiriau: Heledd Fychan
Golygu a chynhyrchu: Mari Gordon
Dylunio: A1 Design
Argraffwyd gan: Zenith Media



Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o’r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adfer na’i drosglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw ddull, boed yn drydanol, yn fecanyddol neu fel arall, heb gael caniatâd ysgrifenedig Amgueddfa Cymru, neu berchennog/ perchnogion yr hawlfraint ymlaen llaw, neu fel y mae’r gyfraith yn ei ganiatáu’n benodol. Dylid anfon ymholiadau ynghylch atgynhyrchu y tu hwnt i gwmpas yr uchod i’r Adran Gyhoeddiadau, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, CAERDYDD, CF10 3NP.
Printiwyd ar Fwrdd Gwyn Challenger wedi’i Bylpio a wnaed o blyp ECF o fforestydd cynladwy.



Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Cyfle i ddarganfod celf, archaeoleg, hanes natur a daeareg. Dewch i graffu ar ein gorffennol yn *Gwreiddiau: Canfod y Gymru Gynnar*, mwynhau rhai o gasgliadau celf gwyfach Ewrop, dysgu sut yr esblygodd bywyd yng Nghymru a pha ddeinosoriaid oedd yn crwydro'r tir 'slawer dydd.



Amgueddfa Llen Rufeinig Cymru

Saif yr Amgueddfa o fewn adfeilion hen gaer Rufeinig - sy'n cynnwys yr unig olion o farics llen Rufeinig sydd i'w gweld yn Ewrop heddiw, a'r amffitheatr fwyaf cyflawn yng ngwledydd Prydain. Cewch gyfle i wisgo fel milwr, a dysgu am fywyd a gwaith y cyfnod drwy ein dinasyddion Rhufeinig ni - a sut y gwnaethant newid bywyd yng Nghymru am byth.



Amgueddfa Wlân Cymru

Hen ffatri wlân y Cambrian Mills yn Dre-fach Felindre yw cartre'r Amgueddfa hon, sy'n egluro pwysigrwydd y diwydiant gwlân yng Nghymru ar un adeg. Bydd cyfle i weld gwehydd masnachol, mur blancedi ac arddangosfa o siolau. Cafodd crysau, gorchuddion gwely a hosanau gwlân eu cynhyrchu yma a'u gwerthu'n lleol – ac ym mhedwar ban byd.



Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru

Dewch am dro i weld adeiladau o Fôn i Fynwy yn atyniad treftadaeth mwyaf poblogaidd y wlad. Dros yr hanner canrif diwethaf, mae dros 40 o adeiladau gwreiddiol o gyfnodau hanesyddol gwahanol wedi'u hailgodi ar barcdir can erw - gan gynnwys tai, fferm, ysgol, tollty ac eglwys ganoloesol ysblennydd.



Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

Adeilad sy'n gyfuniad ysblennydd o'r hen a'r newydd yw cartref Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Dyma'n hamgueddfa genedlaethol ddiweddaraf, sy'n adrodd hanes diwydiant a blaengaredd yng Nghymru heddiw a thros y 300 mlynedd diwethaf, trwy gyfrwng technoleg ryngweithiol ac arloesol ac arddangosfeydd mwy traddodiadol.

eich amgueddfeydd cenedlaethol chi

Mae mynediad am ddim i saith amgueddfa genedlaethol Cymru



Amgueddfa Lechi Cymru

Gweithdai Fictoraidd hen chwarel Dinorwig, yng nghysgod Mynydd Elidir, yw cartref Amgueddfa Lechi Cymru. Yma, gallwch deithio'n ôl i weld gorffennol diwydiant a ffordd o fyw sydd bellach yn rhan annatod o'n hunaniaeth ni.



Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru

Arferai Big Pit gyflogi 1,300 o weithwyr ar ei anterth. Nawr, gallwch ddilyn ôl eu troed mewn arddangosfeydd amlgyfrwng o fri a mynd ar y daith danddaear enwog wrth gwrs. Bydd cyn-löwr yn eich tywys er mwyn i chi gael blas ar amodau gwaith yng nghrombil y ddaear.

Mae gennym **Ganolfan Gasgliadau Cenedlaethol** yn Nantgarw hefyd. Mae'n gartref i ran o'n casgliadau diwydiannol ac yn cynnwys cychod, ceir, injan rowlio a cherbydau mawr eraill yn ogystal ag eitemau llai fel modelau llongau a phaentiadau. Gallwch weld y rhain trwy drefniant.

Am fwy o wybodaeth am yr amgueddfeydd, ewch i'n gwefan www.amgueddfacymru.ac.uk.

cyflwyniad creu amgueddfeydd byw

Mae amgueddfeydd yn llefydd gwych i ymweld â nhw – yn addysgiadol, hwyliog ac annisgwyl. Gallant apelio mewn ffyrdd gwahanol at bobl wahanol, ac ysbrydoli'r hen a'r ifanc fel ei gilydd. Ac i goroni'r cyfan, mae mynediad am ddim i'n hamgueddfeydd cenedlaethol yma yng Nghymru, sy'n golygu bod pawb yn gallu eu mwynhau.

Ond mae mwy i'n hamgueddfeydd nag adeiladau neu stordai yn unig. Er bod gennym rôl bwysig fel gwarcheidwaid trysorau'r genedl, mae'n gwaith o ddehongli a chyfleu'r casgliadau i'r Cymry a'n hymwelwyr lawn mor bwysig. Trwy amrywiaeth anhygoel o weithgareddau dysgu, rydym yn dod â'n hamgueddfeydd yn fyw, ac yn cynnig rhywbeth gwahanol bob tro y dewch chi yma.

Nid yw'n gwaith wedi'i gyfyngu i'n safleoedd chwaith. Rydym yn rhannu'n gwaith trwy bartneriaethau a gwaith ymchwil, yng Nghymru

a thu hwnt. Mae ein staff yn ymweld ag ysgolion a chymunedau, ac yn cysylltu â phobl o bob oed a chefnidir. Hefyd, rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am ein casgliadau ar ein gwefan, Rhagor, ac yn un o brif bartneriaid Casgliad y Werin Cymru – gwefan newydd a chyffrous – sy'n rhoi cyfle i chi fwynhau'n gwaith o glydwch eich cartref!

Mae dysgu wrth wraidd Amgueddfa Cymru, ac mae'r papur hwn yn dathlu hynny. Ein gweledigaeth yw datblygu'n amgueddfa ddysg o safon ryngwladol, ac rydym am gyrraedd y nod hwnnw gyda'ch cymorth chi. Mae'n hamgueddfeydd ni'n perthyn i chi, ac rydym am sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael profi'r casgliadau cenedlaethol a'n gwaith ni. Edrychwn ymlaen at eich croesawu'n fuan.

Paul Loveluck Llywydd Amgueddfa Cymru

Moel y Gaer

Mae'r Pentref Celtaidd yn Sain Ffagan yn atyniad poblogaidd i ymwelwyr, plant ysgol, myfyrwyr ac archaeolegwyr. Mae'n cynnwys dau strwythur plethwaith a chlai, wedi'u seilio ar dystiolaeth o Foel y Gerddi yng Ngwynedd a Moel y Gaer, Sir y Fflint, ac un strwythur carreg sy'n seiliedig ar dystiolaeth Conderton yn Swydd Gaerwrangon. Cawsant eu hadeiladu ym 1992 gan Dr Peter Reynolds, arbenigwr blaenllaw ar dai crwn ar y pryd, ac maent wedi'u cadw, gyda gwaith addasu hanfodol, byth ers hynny. Wrth i ail-gread Moel y Gaer nesáu at ddiwedd ei oes, penderfynwyd dymchwel y strwythur a'i ailadeiladu, gan seilio'n hymdrechion ar ddamcaniaeth archaeolegol heddiw.

Dechreuodd y project hwn ddydd Gŵyl Dewi, a gallai'n hymwelwyr wylïo'r gwaith adeiladu a sgwrsio gyda'n hadeiladwyr a'n dehonglwr, Ian Daniel. Bu'n atyniad poblogaidd dros ben, a chafodd ei ailagor ddiwedd Gorffennaf. Diolch i'r blog a rhaglen o weithgareddau a sgysiau, roedd pobl yn gallu dilyn y datblygiadau diweddaraf wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Bryn Celli Ddu

Am 4.30 o'r gloch y bore ar 22 Mehefin 2010, daeth 135 o ddisgyblion blwyddyn 5 a'u rhieni a'u ffrindiau o Ysgol Llanfairpwll ynghyd i weld un o brif ryfeddodau heuldro'r haf. Fel rhan o raglen ymchwil yr Adran Archaeoleg, aeth Dr Steve Burrow ati i ddangos bod beddrod cyntedd Bryn Celli Ddu ym Môn o'r cyfnod Neolithig, yn wynebu codiad haul canol haf. Am ugain munud ar ddiwrnod hiraf y flwyddyn, mae pelydrau'r haul yn llenwi'r cyntedd gan daflu goleuni a'i dasgu ar wal y siambr gladdu. Dyma'r bedwaredd flwyddyn inni ddathlu'r achlysur hwn fel Amgueddfa. Yn 2007, fe wnaethom wahodd yr Athro Emeritws Gwyn Thomas i'r safle i ddarllen ei gerdd Bryn Celli Ddu a ysgrifennodd yn y 1960au; yn 2008, bu disgyblion Ysgol Llanfairpwll yn cyfansoddi cerdd gyda'r Prifardd Iwan Llwyd, a'r llynedd, cynhaliwyd y bererindod fodern gyntaf yng nghwmni 75 o ddisgyblion a rhieni. Eleni, fe gydweithiodd yr arbenigwr sain a cherddoriaeth Dylan Adams â'r disgyblion i gyfansoddi seiniau dathlu, a gafodd eu perfformio yn yr awyr agored. Adroddwyd cerdd 2008, er cof am Iwan Llwyd, a fu farw'n gynharach yn y flwyddyn. Roedd hi'n frain arbennig croesawu archaeolegwyr o Sîlân Bhrú (Newgrange) Iwerddon - siambr gladdu fwyaf Ewrop - lle maen nhw'n dathlu heuldro'r gaeaf, ac archaeolegwyr Maes Howe, Ynysioedd Erch. Trwy ymgysylltu â phobl leol, rydym yn sicrhau bod gwaith ymchwil ar ffordd o fyw, a defodau yn yr achos hwn, ein cyndeidiau yn ael eu rhannu â thrigolion ardal Bryn Celli Ddu heddiw.

Sioe Filwrol Fawr

Ym mis Gorffennaf, dychwelodd y Brenin Arthur i Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion, wrth hawlio lle canolog mewn Sioe Filwrol. Mae'r digwyddiad blynyddol hwn, sy'n canolbwyntio ar y cyfnod Rhufeinig gan amlaf, yn boblogaidd iawn gyda phawb o bob oed, ac yn dod â hanes Caerllion yn fyw am un penwythnos o'r haf. Penderfynodd yr Amgueddfa i amrywio rhywfaint ar bethau eleni, er mwyn cynnig rhywbeth newydd i'n hymwelwyr rheolaidd, a defnyddio'r digwyddiad i drafod y cysylltiadau rhwng Arthur a Chaerllion. Yn ei lyfr *Hanes Brenhinoedd Prydain*, a gyhoeddwyd tua 1135, dywedodd Sieffre o Fynwy fod Arthur wedi cynnal llys a chael ei goroni yng Nghaerllion. Mae hefyd yn cyfeirio at Arthur a Gwenhwyfar, a ddaeth yn lleian yng Nghaerllion maes o law. Er hynny, mae amheuaeth o hyd ai arweinydd milwrol go iawn o'r 6ed ganrif neu ffrwyth dychymyg yr awdur oedd Arthur, gan nad oes unrhyw dystiolaeth bendant o'i fodolaeth. Beth bynnag am hynny, mae Arthur wedi cydio yn nychymyg pobl ym mhedwar ban byd, ac mae'n stori ryfeddol sy'n haeddu ei hadrodd.



Llwyddodd ein gwefan i ddenu **1,253,630** o ymweliadau yn 2009/10

bywyd i'n gorffennol

Mae ein casgliadau cenedlaethol yn cynnwys 4.7 miliwn o eitemau unigol. Mae ein staff yn helpu grwpiau ac unigolion gwahanol i ddysgu a deall amdanynt trwy greu dulliau dehongli sy'n llawn hwyl a dychymyg. Rydym yn annog pobl i gael profiad ymarferol o wrthrychau a chysyniadau'r amgueddfa, er mwyn eu hysbrydoli i ddeall a gwerthfawrogi'r gorffennol yn well.

Llefydd i Natur

>

Ymunodd pob amgueddfa genedlaethol ag ymgyrch Llefydd i Natur y BBC trwy greu llecynnau arbennig i ymwelwyr gael mwynhau byd natur. Prif nod y project yw annog pobl i wneud rhywbeth er lles byd natur yn eu milltir sgwâr, a’u helpu i werthfawrogi’r byd o’u cwmpas. Penderfynodd pob amgueddfa i ddilyn trywydd gwahanol, gyda rhai’n dewis datblygu llwybrau natur neu fannau gwyrdd, ac eraill yn cymryd rhan yn nigwyddiad Tree O’Clock, sef ymgais i dorri record byd Guinness trwy blannu’r nifer fwyaf o goed mewn awr.

‘Dwi am ddod yn ôl yma pan fydda’ i’n hen ddyn, a sôn wrth fy mhlant am y goeden wnes i ei phlannu. Tybed pa mor dal fydd hi erbyn hynny?’

Ymwelydd 8 oed â Sain Ffagan.

Bylbiau’r Gwanwyn

Mae project Bylbiau’r Gwanwyn i Ysgolion yn rhoi cyfle i ddisgyblion fod yn wyddonwyr, trwy eu helpu i ymchwilio i newid yn yr hinsawdd a’i ddeall. Mae ysgolion ledled Cymru yn gweithio gydag Amgueddfa Cymru i ofalu am y bylbiau sy’n cael eu cyflenwi gan gwmni Really Welsh, a gweld beth yw effaith newidiadau’r tymhorau ar batrymau blodeuo yng Nghymru.

Yn 2009-10, cynorthwyodd y project 2,677 o ddisgyblion, 63 o ysgolion ac 17 o bobl ifanc sy’n cael eu haddysgu gartref, i ddeall newid yn yr hinsawdd yn well a chreu data sy’n cyfrannu at ddeall y darlun ehangach.

Blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth

Mae Amgueddfa Cymru ymhlith 20 a mwy o sefydliadau yng Nghymru sydd wedi dod ynghyd i ddiogelu bioamrywiaeth fel rhan o ymgyrch fyd-eang. Y nod yw codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwarchod amrywiaeth anhygoel bywyd ein planed, ac annog pobl eraill i addo ‘gwneud un peth’ tuag at yr achos. Mae bioamrywiaeth yn hanfodol ar gyfer ein bodolaeth; hebddo, ni allwn oroesi.

Mae pob un o’n hamgueddfeydd yn pwysleisio’r ymgyrch hon i ymwelwyr, ac mae pob math o weithgareddau gwahanol wedi’u trefnu gan gynnwys teithiau tu ôl i’r llenni mewn amgueddfeydd, teithiau cerdded, arddangosfeydd a sgysiau ar newid yn yr hinsawdd.

Anifeiliaid y Dyfodol

Sut olwg fydd ar anifeiliaid anwes ac anifeiliaid fferm mewn mil o flynyddoedd? Gyda newid yn yr hinsawdd a’r cynnydd ym mhoblogaeth y byd, a fydd angen anifeiliaid anwes llai o faint, glanach a haws i’w cludo? Beth am ficro-gi maint ffôn poced, neu fridio crwban ysgafn carlamus? Dyma rai o’r cwestiynau a godwyd yn arddangosfa Anifeiliaid y Dyfodol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn gynharach eleni.

Bu Amgueddfa Cymru, Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Caerdydd, yr artist Paul Evans a Techniquest yn cydweithio ar y project creadigol hwn a noddwyd gan Oleufa Cymru. Roedd yr arddangosfa’n cynnwys lluniau dyfeisgar dros ben gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ysgol Gatholig St Alban Pont-y-pŵl ac ITEC Solutions Caerdydd, o ddafad â sip i giard coala, sgittls pengwin a nadroedd anwes. Cafodd yr ymwelwyr gyfle i gynllunio ‘anifail y dyfodol’ hefyd, a’i ddangos i’r byd a’r betws!

Cynhaliwyd yr arddangosfa yn dilyn tridiau o weithdai ym mis Rhagfyr 2009 pan ofynnwyd i’r plant feddwl am anifeiliaid fferm ac anwes y dyfodol. Roedd criw o archaeolegwyr, swyddog addysg, gwyddonydd geneteg ac artist llwyddiannus wrth law i ddehongli creadigaethau’r plant, ac i roi cyngor a gwybodaeth ddefnyddiol.

Meddai’r artist Paul Evans: ‘Yn ogystal â chael hwyl creadigol, roedd elfen foesegol i’r gweithdy hefyd. Fe wnaethom ni ofyn i’r plant am agweddau da a drwg hyn. Ydy hi’n iawn ein bod ni’n newid golwg anifeiliaid a’u hymddygiad dim ond er mwyn cael cyfaill del neu anwesol, neu ffynhonnell fwyd ddof?’ Ychwanegodd Jacqui Melville, arbenigwraig mewn archaeoleg anifeiliaid: ‘Roedd hi’n arbennig o braf gweld ôl llaw dyn ar “gynllunio” anifeiliaid ddoe a heddiw yn dod yn fyw, gan ddefnyddio ein gwybodaeth arbenigol ar archaeoleg, hanes a geneteg cŵn. Roedd hi’n wych gweld y myfyrwyr yn ymateb i’n her o greu anifeiliaid y dyfodol, a sut mae archaeoleg a geneteg yn gallu sbarduno syniadau mor rhyfeddol am ein dyfodol.’

‘Mae Anifeiliaid y Dyfodol y wych! Mae’n ffordd hwyliog, llawn dychymyg o gyflwyno syniadau cymhleth! Mae’n braf gweld Prifysgol Caerdydd a’r Amgueddfa yn gweithio mor dda gydag ysgolion!’

Ymwelydd â’r arddangosfa.



deall y dirwedd

Oeddech chi’n credu taw dim ond hanes a gwrthrychau mae amgueddfeydd yn eu trin a’u trafod? Ystyriwch eto! Mae staff Amgueddfa Cymru yn cyflawni gwaith ymchwil a gwaith maes, tra’n chwilio am ffyrdd newydd o ddeall y byd o’n cwmpas yn well. Mae cynaladwyedd yn hollbwysig i ni. Yn ogystal â defnyddio dulliau arloesol i ddatblygu amgueddfeydd cynaliadwy, rydym yn cyfrannu at hyrwyddo cynaladwyedd yn y gymuned ehangach hefyd. Rydym yn trefnu llu o weithgareddau gwahanol i annog ein hymwelwyr i werthfawrogi, parchu ac archwilio’r wlad o’u cwmpas, er mwyn i genedlaethau’r dyfodol ei mwynhau yn yr un modd.

Meteorit Beddgelert

Yn oriau mân y bore ar 21 Medi 1949, fe welodd llawer o bobl y Gogledd a Swydd Gaer olau llachar yn gwibio ar draws yr awyr. Meteorit Beddgelert oedd hwn, ac yn 2009, dathlwyd 60 mlynedd ers i westeion gwesty'r Tywysog Llewelyn ei weld yn glanio yno. Fe glywodd un ohonynt gyfres o ffrwydradau aneglur a thair neu bedair eiliad o dawelwch, yna sŵn suo 'fel sŵn awyren fechan' a dyfodd yn uwch ac yn uwch tan y clywyd sŵn llechi'r to yn chwalu.

Yn ddiweddarach, gwelwyd twll bach crwn yng nghanol llechi'r to a thwll blêr yn y nenfwd, a achoswyd gan garreg dywyll – sef meteorit. Dyma'r eildro'n unig y gwyddom i feteorit lanio yng Nghymru.


I nodi'r achlysur arbennig ond prin hwn, cynhaliodd Amgueddfa Cymru arddangosfa o'r meteorit yn Neuadd Bentref Beddgelert, ar y cyd â Phroject Telesgop Faulkes Prifysgol Caerdydd a BBC Cymru. Gofynnwyd i bobl hel atgofion eu ffrindiau a'u teuluoedd am y digwyddiad, er mwyn creu darlun manylach o'r hyn ddigwyddodd ym Meddgelert flynyddoedd maith yn ôl.

Traed mewn Cyffion

Cafodd y pecyn treftadaeth cymunedol hwn ei lansio yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau fis Tachwedd. Paratowyd y pecyn gan Amgueddfa Cymru yn sgil project amlweddog 'Traed mewn Cyffion - Cymru a Chaethwasiaeth' a gynhaliodd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn 2007 i nodi daucanmlwyddiant Deddf Diddymu'r Farchnad Gaethwasiaeth.

Cynlluniwyd yr adnodd electronig hwn, sydd am ddim, er mwyn helpu pobl i ddeall y rhan a chwaraeodd Cymru yn y fasnach gaethwasiaeth trawsiwerydd. Ei nod yw annog unigolion, grwpiau a sefydliadau i archwilio hanes y fasnach, gan gynnwys ei hetfeddiaeth gyfoes, trwy gasgliadau'r amgueddfa. Hefyd mae'n cynnig syniadau, gweithgareddau a gweithdai er mwyn sefydlu projectau cymunedol sy'n mynd i'r afael â phynciau fel hanes pobl dduon a threftadaeth Gymreig.

Mae gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd y project hwn. Ers cychwyn ar y gwaith yn 2007, mae'r Amgueddfa wedi gweithio'n agos gydag amrywiaeth o grwpiau a sefydliadau cymunedol i adlewyrchu safbwyntiau cyfoes ar yr elfen bwysig hon o hanes y byd. Meddai'r Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones: 'Rwy'n croesawu lansiad pecyn offer Traed Mewn Cyffion, gan ei fod yn bwysig ein bod ni'n parhau i ddod o hyd i ffyrdd effeithiol o godi ymwybyddiaeth o'r fasnach gaethwasiaeth drawsiewerydd, gan ddilyn ymlaen o'r arddangosfa i goffau 200 mlynedd ers pasio'r Ddeddf Diddymu Caethwasiaeth. Mae'r pecyn offer hwn yn cynrychioli etifeddiaeth barhaus i sefydliadau treftadaeth ar sut i ddehongli un o gyfnodau tywyllaf ein hanes mewn ffordd sensitif, a hoffwn longyfarch pawb a fu'n gweithio ar y project hwn.'



Casgliad y Werin Cymru

Mae Amgueddfa Cymru yn ymrwmo i sicrhau bod modd gweld cymaint ag sy'n bosibl o'n casgliadau ar-lein, ac rydym yn falch iawn ein bod wedi gallu gwneud cyfraniad allweddol i broiect Casgliad y Werin Cymru, ar y cyd â'r Llyfrgell Genedlaethol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac eraill.

Mae Casgliad y Werin, a ariannwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, yn defnyddio technoleg y we i ddod ag eitemau o amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd ynghyd, a chreu adnodd newydd a chyffrous sy'n cyflwyno pob agwedd ar hanes y genedl. Hefyd, mae'r project yn annog unigolion, grwpiau cymunedol a chymdeithasau hanes lleol i greu eu casgliadau gwrthrychau a'u straeon eu hunain. Mae'r wefan yn cynnwys lluniau, dogfennau, straeon a fideos. Gall ymwelwyr fwrw golwg ar wrthrychau o'r casgliadau cenedlaethol a'u cymharu gyda'u heitemau personol, gan gyfrannu ac ychwanegu at ein dealltwriaeth o ddigwyddiadau, lleoedd a phobl Cymru.

I gael blas ar y casgliad, ewch i www.casgliadywerincymru.co.uk.



Cymerodd
33,500 o bobl
ran mewn
gweithgareddau
addysgol y tu allan i'n
hamgueddfeydd
yn 2009/10

mwy nag adeiladau

Rydym yn gweithio gyda chanolfannau ledled Cymru, ac yn rhoi cyfle i filoedd mwy o bobl weld y casgliadau cenedlaethol. Trwy weithio mewn partneriaeth gyda phob math o sefydliadau a chymunedau gwahanol, rydym yn dod â'n casgliadau a'n gwaith ymchwil yn fyw er mwyn i bawb ddysgu am hanes a thirwedd eu bro.

Project ‘Start’ >

Daeth 665 o blant o saith ysgol ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Caerdydd i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd fel rhan o broject ‘Start’ wedi’i noddi gan Sefydliad y Tywysog ar gyfer Plant a’r Celfyddydau.

Cynhaliwyd yr ymweliad cyntaf dros saith niwrnod ym mis Tachwedd 2009. Treuliodd bob plentyn ddiwrnod cyfan yn yr Amgueddfa, a chymryd rhan mewn dau weithdy hanner diwrnod. Buont yn gweld arddangosfa *Golwg Sain: Celfyddyd a Cherddoriaeth ers 1900* a’r orielau celf hanesyddol.

Roedd yr ail ymweliad ym mis Ebrill 2010, pan ddaeth y plant i weld arddangosfa celf gyfoes ryngwladol *Artes Mundi 4*. Yn ystod eu hymweliad saith niwrnod, cawsant eu cyflwyno i rai o’r gweithiau a themâu allweddol gan griw o ddehonglwyr yr amgueddfa. Bu’r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithdy hanner diwrnod yn yr oriel, yn gwneud llyfrau bach a chasglu syniadau trwy ysgrifennu a darlunio. Y diwrnod canlynol, cafwyd gweithdy gydag artist yn ôl yn yr ysgol.

‘Mae celf yn gallu’ch arwain o’r lle rydych chi nawr, i unrhyw le yr hoffech chi fod.’

Disgybl o Ysgol Iau Trowbridge

Wythnos Ffoaduriaid

Am yr ail flwyddyn yn olynol, cafwyd cymysgedd o gerddoriaeth, dawnsio a chrefftau yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ym mis Mehefin fel rhan o Wythnos Ffoaduriaid 2010. Mae’n llwyfan unigryw lle gall gwahanol gymunedau a rhannau o’r gymdeithas ddod at ei gilydd i gynnig ffyrdd newydd a chreadigol o ddeall profiadau ffoaduriaid, a dathlu gwahaniaethau diwylliannol.

Meddai Sue James, Swyddog Addysg Amgueddfa Genedlaethol y Glannau: ‘Rydym yn falch o lansio’r wythnos hon yng Nghymru unwaith eto, ar ôl cael ymateb gwych y llynedd pan ddaeth pob math o bobl i fwynhau’r dathliadau.’

Wrth gyfeirio at y digwyddiad, dywedodd Hawar Ameen, Cydlynnydd Wythnos Ffoaduriaid yng Nghymru: ‘Mae’r digwyddiad lansio’n gyfle gwych inni gyflwyno negeseuon cadarnhaol ac addysgol sy’n mynd i’r afael ag ofnau, anwybodaeth a stereoteipiau negyddol o ffoaduriaid. Rydym yn gobeithio y bydd yn uno diwylliannau gwahanol ac yn dod â phobl o bedwar ban byd at ei gilydd.’



Diwali Mela

Dawnsuwr Indiaidd, storiwyr, cerddoriaeth Bollywood ac arddangosfeydd Rangoli - dyna rai o’r pethau a groesawodd ymwelwyr i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, wrth i Gymdeithas Ddiwylliannol Hindŵaidd Cymru a Chanolfan India Caerdydd ddathlu Diwali Mela, neu Wyl y Goleuadau.

Daeth Hindŵiaid Caerdydd at ei gilydd i ddangos eu traddodiadau a’u gwerthoedd i gynulleidfa ehangach, mewn digwyddiad am ddim i bawb. Roedd y diwrnod yn amrywio o ganeuon gwerin, tatŵs Henna i arddangosiadau gwisgo sari a lluo o stondinau celf a chrefft a sbeisys.

Fel yr esbonia Heidi Evans, Swyddog Digwyddiadau Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, 'Dyma un o’r diwrnodau yng nghalendr digwyddiadau’r Amgueddfa pan fo’r Brif Neuadd yn llawn lliw, dathlu a mwynhad pur. Gwledd i’r llygaid, heb os!’

Geiriau Glo

Geiriau Glo yw’n cyfres ddiweddaraf o adnoddau ar y we sy’n galluogi tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion ddefnyddio’r amgueddfeydd er mwyn helpu eu myfyrwyr i wella’u sgiliau iaith. Mae’r gyfres hon wedi’i seilio ar ymweliad â Big Pit, ac mae eisoes wedi cael croeso brwd. Cafodd ei lansio ym Mhrifwyl Blaenau Gwent a Blaenau’r Cymoedd.



Cawsom
236,284
o ymweliadau
dysgu ffurfiol â’n
hamgueddfeydd
yn 2009/10

ymgysylltu

Hoffem sicrhau bod mwy a mwy o bobl yn gallu dod i’n hamgueddfeydd a chymryd rhan yn ein gweithgareddau. Dyna pam bod ein staff yn gweithio ar broiectau amrywiol gyda chymunedau ym mhob cwr o’r wlad, sy’n aml yn sbarduno pobl i ymweld ag un o’r amgueddfeydd cenedlaethol am y tro cyntaf erioed. Hefyd, mae’r gwaith hwn yn arwain at nifer o ddigwyddiadau cyffrous lle mae cymunedau’n cyflwyno’u diwylliant mewn amgueddfeydd – sy’n golygu bod pobl eraill yn gallu dysgu mwy am eu traddodiadau a’u ffordd o fyw.

Gwobr Sandford >

Erbyn hyn, mae'n holl amgueddfeydd wedi ennill gwobr Sandford am ragori mewn addysg treftadaeth. Cafodd yr enillydd diweddaraf, Amgueddfa Lechi Cymru, ganmoliaeth uchel gan y beirniaid, a oedd wedi'u plesio gyda'r hyn a welsant. Gwobrwywyd yr Amgueddfa Lechi am ragoriaeth y gwasanaeth addysg.

Gwirfoddolwr y Flwyddyn

Rydym yn cynnig nifer o gyfleoedd gwirfoddoli, ac mae'n gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol tu ôl i'r llenni a chydag ymwelwyr. Eleni, enillodd Del Elliot, un o'n gwirfoddolwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Wobr Ymddiriedolaeth Marsh fel Gwirfoddolwr y Flwyddyn Amgueddfeydd y DU. Mae'r Wobr yn cydnabod arferion gorau a dulliau arloesol gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn amgueddfeydd ac orielau er mwyn denu'r cyhoedd i fwynhau'r casgliadau. Mae'n gyfle i ddathlu gwaith a gorchestion gwirfoddolwyr.

Meddai Siân Layton, Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Amgueddfa Cymru, a enwebodd Del: 'Mae Del wedi gwirfoddoli yn Amgueddfa Cymru ers Mehefin 2009, gan helpu gyda sesiynau trin a thrafod gwrthrychau yn oriel *Gwreiddiau: Canfod y Gymru Gynnar*. Fe wnaethon ni enwebu Del oherwydd ei allu i gyfleu ei frwdfrydedd dros y gwrthrychau a'r cyfnod cynhanes i gynulleidfaoedd ehangach, ac ennyn chwlfrydedd a rhyfeddod ymysg ymwelwyr. Gwyddom hyn yn sgil sylwadau cadarnhaol gan ymwelwyr a'r staff'

'Dwi wrth fy modd - er ei fod yn brofiad rhyfedd cael gwobr am rywbeth sy'n rhoi cymaint o bleser i mi!' ychwanegodd Del. 'Diolch i Amgueddfa Cymru am roi cyfle i mi ddatblygu fy sgiliau personol a dod yn fwy hyderus. Mae'n ffrind cael cwrdd â'r holl ymwelwyr gwahanol sy'n dod i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd - mae'n brofiad gwerth chweil i'r ddwy ochr - a byddwn i'n annog pawb i wirfoddoli.'



Cafwyd
259,446
o ymweliadau
dysgu anffurfiol â'n
hamgueddfeydd
yn 2009/10

dathlu dysgu

Mae dysgu wrth wraidd popeth a wnawn yn Amgueddfa Cymru. Wrth weithio tuag at ein gweledigaeth o fod yn amgueddfa ddysg o safon ryngwladol, rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd newydd o ddod â'n casgliadau'n fyw fel bod mwy a mwy o bobl yn gallu'u mwynhau. Credwn yn gryf hefyd mewn datblygu'n staff, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynnig y profiad gorau posibl i'n hymwelwyr.



uchafbwyntiau

Ar 21 Mai enillodd yr artist Yael Bartana bedwaredd Gwobr Artes Mundi – gwobr gelf fwyaf Prydain. Mae'r wobwr eilflynyddol ryngwladol hon yn cydnabod gwaith artistiaid newydd o bedwar ban byd, a chynhaliwyd arddangosfa o waith yr wyth artist ar y rhestr fer yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Cynhaliwyd teithiau, ymweliadau ysgolion a grwpiau addysgiadol a gweithgareddau i'r teulu i gyd-fynd â hi.





uchafbwyntiau

Ar ddydd Sadwrn 21 Tachwedd 2009 agorwyd *Green Drops and Moonsquirters: The utterly imaginative world of Lauren Child* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd gan Lucy Owen a'i theulu. Gellid gweld Charlie, Lola, Clarice Bean a chymeriadau enwog eraill o'i llyfrau poblogaidd yno. Gallai'r plant eistedd wrth fwrdd cegin Charlie a Lola i wneud pryddau gyda bwyd o'u rhewgell, gwisgo fel eu hoff gymeriadau a blasu'r llaeth pinc enwog. Cynhaliwyd lluoedd digwyddiadau a gweithgareddau i'r teulu i gyd-fynd â'r arddangosfa.



uchafbwyntiau

(chwith a'r dudalen hon) Julia Griffith Jones yw artist preswyl Amgueddfa Wlân Cymru, ac eleni mae wedi bod yn arddangos pum gwaith a grëwyd yn arbennig at y pwrpas yn yr Amgueddfa. Gall ymwelwyr ddilyn taith weithgareddau newydd sy'n gysylltiedig â gwahanol ddarnau o waith Julia, ac ymateb i'r Amgueddfa, y casgliadau a'r celf mewn modd creadigol a phersonol.

(chwith isod) Dathlai arddangosfa *O Gymoedd y De i Begwn y De* 100 mlynedd ers i Capten Scott adael Caerdydd am Begwn y De, gan ddatgelu cysylltiadau'r brifddinas ag alltaith enwog Scott.

Ein nod yw bod yn amgueddfa ddysg o safon ryngwladol, ac rydym yn dibynnu ar gyfraniadau preifat gan unigolion a chwmnïau, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau i’n helpu i sicrhau bod ein gweithgareddau mwyaf poblogaidd yn parhau. Mae’r cymorth hwn yn ein galluogi i ehangu a gwella ein casgliadau, rhoi cyfleoedd dysgu i bobl ifanc, rhannu ein casgliadau ledled y byd, a llawer mwy.

Hoffai Amgueddfa Cymru ddiolch o galon i’r canlynol:

Cyfranwyr at Apêl William Dyce	Prif Noddwr
Pawb a gofiodd am Amgueddfa Cymru trwy adael cymynrodd	Y Gwir Anrhydeddus Iarll Plymouth
Pawb a noddodd seddi yn Sefydliad y Gweithwyr Oakdale, Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru	
	Noddwyr Oes
	1 Noddwr Oes Anhysbys
	Dr Margaret Berwyn Jones
	Enid Child
	Nicholas a Diana de Courcy-Ireland
	Dr Margaret Elmes
	Marion Evans
	Sigi a Wynford Evans
	Mr a Mrs R. A. Forster
	Nigel a Jane Gibbs
	Christopher Gridley
	Jo Hirst
	Anita Johansson
	Y Capten Syr Norman Lloyd Edwards KCVO
	Malcolm a Monica Porter
	R. Paul Russell
	Anna Southall
	Roger a Rhian Thomas

	Noddwyr a Rhoddwyr Unigol
	Richard a Jane Anning
	Mrs E. M. Austin
	Lawrence Banks
	Dafydd Bowen Lewis
	William Burgess
	David a Carole Burnett
	Dan Clayton-Jones Ysw.
	Dr Sarah Cockbill
	Mrs Valerie Courage

cefnogwyr a rhoddwyr

Robert a Rhian Croydon	Anthony a Mary Pugh
Margaret Davies	Bernard a Valerie Rees
Robert Edward	Brian I. Rees OBE
Haydn E. Edwards	Dr John a Mrs Janet Rees
Gerard ac Elisabeth Elias	Dr Colin J. Richards a Mrs Ann Richards
Mrs Wynne Evans	John Roberts
Mrs Christine Eynon	Mike a Mary Salter
Roger a Kathy Farrance	Richard a Gaynor Smart
John a Genevieve Foster Thomas	Dr P. M. Smith
Pearl E. Gayther	John Sorotos
Christopher Gridley	Geraint Talfan Davies
Sir Richard Hanbury-Tenison KCVO	Alun Thomas
Alan a Judith Hart	Bev Thomas MBE
G. Wyn Howells MBE	Jackie Thomas
Afanwen James	Ken a Fran Truman
Jane Jenkins	David a Christine Vokes
Anne a Hywel Jones	Haydn a Dorothy Walters
Terry Jones	Dr Jane Watkeys
Ian a Julia Kelsall	Mrs Meriel Watkins
Miss Pat Kernick	John a Hilary Weber
Neil Kinnock	Richard Weston a Linda Prosper
Mr Gerry Long MBE a Mrs Pat Long	Dr D. M. J. a Dr M. V. Williams
L. Hefin Looker	David a Pam Williams
Paul a Lynne Loveluck	Ruth a Gareth Williams
Julian Mitchell	Dr W. B. Willott CB
Peter Morgan	Is-iarll Windsor
Mr a Mrs Rhodri Morgan	Derek a Joan Woolley
Peter a Maria Neumark	Y Noddwyr hynny sy’n dymuno bod yn ddienw.
Mr John Phillips	
Michael a Siân Phipps	Er cof am Noddwyr a fu farw yn ystod y flwyddyn
Robert ac Elaina Powell	Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rhaglan
Mathew a Lucy Prichard	Michael Griffith



uchafbwyntiau

(uchod) Ar ddydd Sadwrn 28 Tachwedd 2009 lansiwyd *Traed Mewn Cyffion – Cymru a Chaethwasiaeth* yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Mae'r adnodd electronig rhad ac am ddim hwn yn gymorth i grwpiau ddefnyddio casgliadau amgueddfa i ddeall rôl Cymru mewn caethwasiaeth. Gweithiodd Amgueddfa Cymru yn agos iawn â sefydliadau cymunedol amrywiol ar broiect aml-wedd i nodi daucanmlwyddiant Deddf Diddymu Caethwasiaeth yn 2007.

(dde) Mair Price, sydd â stori yn ymddangos yng nghylchgrawn Big Pit *GLO: Mineworkers*, yn adrodd ei stori yn ystod lansiad y cylchgrawn yn yr Eisteddfod.

